**Gofynnwch am/Please ask for:** Mason Powell

| **Fy Nghyf / My Ref:** | **Eich Cyf / Your Ref:** | **Dyddiad / Date:** |
|---|---|---|
| IF260.MP | | 06/03/2026 |

Annwyl Berchennog/Feddiannydd,

**<u>Hysbysiad Cyhoeddus</u>**

**<u>IF260 Stryd Rhydychen, Maerdy – Gwelliannau i Ddiogelwch Ffyrdd</u>**

Efallai y byddwch chi eisoes ar ddeall bod yr Awdurdod wedi cynnal ymarfer ymgynghori Cyn-statudol yn ddiweddar, a hynny er mwyn nodi barn y cyhoedd ar gynigion i wella diogelwch priffyrdd y ffyrdd ar hyd Stryd Oxford a Heol y Gorsaf, Maerdy.

I ailadrodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y llythyrau blaenorol; mae'r Cyngor yn cynnig cyflwyno cyfres o fesurau ar hyd Stryd Rhydychen a Heol yr Orsaf mewn ymdrech i wella diogelwch ar y briffordd ac atal modurwyr rhag gyrru'n rhy gyflym. Nod y cynigion yma yw gwella diogelwch ar y ffyrdd i holl ddefnyddwyr y briffordd, yn enwedig i drigolion a cherddwyr, drwy weithredu newidiadau ffisegol i'r briffordd wrth gyffordd Stryd Rhydychen/Heol yr Orsaf. Byddwn ni hefyd yn gwella'r arwyddion wrth nesáu at y gyffordd i geisio arafu cerbydau.

Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng sawl adran o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dilyn gwrthdrawiadau diweddar yn yr ardal. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys y mesurau canlynol:

- Gosod cyrbau cyfyngiant ar hyd rhan o'r lôn tua'r de o Heol yr Orsaf, sy'n arwain at Stryd Rhydychen.
- Gosod cyrbau cyfyngiant o amgylch ochrau dwyreiniol a gorllewinol cyffordd Stryd Rhydychen/Heol yr Orsaf.
- Gosod bolardiau adlewyrchol y tu ôl i'r cyrbau cyfyngu ar hyd Heol yr Orsaf, i dynnu sylw at y tro yn well.

**Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**
**Highways, Streetcare and Transportation**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

- Pwynt croesi heb ei reoli, ag arwyneb botymog, yn union i'r de o'r cyrbau cyfyngiant ar Stryd Rhydychen.

- Estyn y llinellau melyn dwbl presennol a gosod rhai newydd ar hyd Stryd Rhydychen a Heol yr Orsaf i hwyluso'r trefniant newydd ar y briffordd a'r man croesi newydd.

Yn ogystal â'r cynigion uchod, bydd arwyddion gwell – sef arwyddion porth ac arwyddion yn cyfrif i lawr – yn cael eu gosod yn fuan ar hyd Heol yr Orsaf, tua'r de o Heol Maerdy, yn hysbysu am y terfyn cyflymder o 20mya. Bydd arwydd negeseuon amrywiol (VMS) hefyd yn cael ei godi gyferbyn â chyffordd Heol yr Orsaf/Heol y Stiwt, yn wynebu traffig tua'r de. Bydd hyn yn dangos y terfyn cyflymder (20mya) pan fydd ceir sy'n agosáu yn mynd yn gyflymach na hyn.

Mae'r lluniau sydd wedi'u hatodi yn cynnwys y manylion ynglŷn â'r cynllun **P493-00-75-01**.
Mae manylion llawn y cynigion hefyd ar gael ar wefan y Cyngor (www.rctcbc.gov.uk/traffig).

Mae cyfnod o hysbysiad cyhoeddus yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig yn ofyniad cyfreithiol, lle mae manylion y cynigion yn cael eu nodi. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau sydd gyda nhw, a hynny mewn dull ffurfiol.

Pe hoffech chi nodi sylwadau, anfonwch nhw'n ysgrifenedig erbyn **27 Mwrth 2026,** ar gyfer sylw Rheolwr y Gwasanaethau Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Llawr 2, Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu drwy e-bostio: gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk

Pe hoffech chi ragor o wybodaeth, mae croeso i chi anfon e-bost ataf i'r cyfeiriad e-bost uchod. Fel arall, pe hoffech chi drafod y materion yma dros y ffôn, dylid gwneud ceisiadau am alwad yn ôl i'r un cyfeiriad e-bost.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Yn gywir,

**Mason L. Powell, MEng (Hons.)**

Uwch Swyddog | Senior Engineer
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management

**Gofynnwch Am/ Please Ask For:** Mason Powell

| **Fy Nghyf/ My Ref:** | **Eich Cyf/ Your Ref:** | **Dyddiad/ Date:** |
|---|---|---|
| IF260.MP | | 06/03/2026 |

Dear Owner/Occupier,

## **Public Notice**

## **IF260 Oxford Street, Maerdy – Road Safety Improvements**

As you may be aware, the Authority has recently undertaken a Pre-statutory consultation exercise to gauge public opinion on proposals to improve highway safety along Oxford Street and Station Road, Maerdy.

To reiterate the information provided in the previously provided letters, the Council proposes to introduce a series of measures along Oxford Street and Station Road in an effort to improve highway safety and dissuade motorists from speeding. These proposals aim to improve road safety for all highway users, particularly for residents and pedestrians, by implementing physical alterations to the highway at the Oxford Street/ Station Road junction – in tandem with improved signage on approach – in an effort to mitigate vehicular speeding.

The scheme has been developed collaboratively between several RCTCBC departments following recent collision incidences in the area. The proposed improvements consist of the following:

- Containment kerbs along a section of the southbound lane of Station Road, leading to Oxford Street.
- Containment kerbs around the eastern and western sides of the Oxford Street/ Station Road junction.
- Reflective bollards to the rear of the containment kerbs along station road, to better highlight the bend.

**Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**
**Highways, Streetcare and Transportation**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

- A tactile-surfaced, uncontrolled crossing point immediately south of the containment kerbs on Oxford Street.

- Extension of existing and instatement of new double yellow lines along Oxford Street and Station Road to facilitate the new highway arrangement and crossing point.

In addition to the above proposals, improved signage – namely gateway signs and countdown marker signs – will soon be instated along Station Road, due south of Maerdy Road, informing of the 20mph speed limit. A variable message sign (VMS) will also be erected opposite the Station Road/ Institute Road junction, facing southbound traffic, that will display the speed limit (20mph) once exceeded by approaching cars.

Details of the proposals are outlined on the attached drawing **P493-00-75-01**.
Full details of the proposals are also available on the Council's website (www.rctcbc.gov.uk/traffic).

A period of Public Notice outlining the proposed changes is a legal requirement; during which time, details of the proposals are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any observations or objections they may have.


If you wish to object to these proposals, you should do so in writing by **27th March 2026**, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Floor 2, Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH or alternatively by email to **TrafficConsultations@rctcbc.gov.uk**

If you require any further information, please do not hesitate to contact me via the above email address. Alternatively, should you wish to discuss these matters over the telephone, requests for a call back may be made by email to the same email address. I trust the above is of assistance.

Yours faithfully,

**Mason L. Powell, MEng (Hons.)**

Uwch Swyddog | Senior Engineer
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management




Allwedd / Key:

- Aliniad y cwrb / Kerb alignment
- Cwrb cyfyngiant uchel / High containment kerbs
- Estyniad troetffordd / Footway extension
- Palmant botymog / Tactile paving
- Llinellau melyn dwbl arfaethedig / Proposed double yellow lines
- Llinellau melyn dwbl presennol / Existing double yellow lines
- Llain weledEdd traffig sy'n dod tuag at groesfan sy'n cyfateb i'r Pellter Golwg ar gyfer Stopio ar gyfer y cyflymder priodol. / Visibility splay of traffic oncoming towards crossing that corresponds with the SSD for the appropriate speed.

© Hawlfraint y Goron [a hawliau'r gronfa ddata] 2025 OS AC0000811047. Mae hawl gyda chi i ddefnyddio'r data yma dim ond at ddibenion ymateb i'r sefydliad sy'n rhoi'r data i chi, neu at ddibenion cysylltu ag ef. Does dim hawl gyda chi i gopïo neu is-drwyddedu'r data yma ar ran trydydd partïon, neu'i ddosbarthu neu'i werthu iddyn nhw.

© Crown copyright [and database rights] 2025 OS AC0000811047. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

RHONDDA CYNON TAF
RHONDDA CYNON TAF PRIFFYRDD, GOFAL Y STRYDOEDD A THRAFNIDIAETH
RHONDDA CYNON TAF HIGHWAYS, STREETCARE AND TRANSPORTATION
PROSIECTAU STRATEGOL/STRATEGIC PROJECTS
Llawr 2\Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Ffôn/Tel: 01443 425001 Ffacs/Fax: 01443 490414

Cleient/ Client
CBS Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf CBC

Prosiect/ Project
Stryd Rhydychen, Maerdy
Oxford Street, Maerdy

Teitl y Llun/ Dwg Title
# Ymgynghoriad Cyn-statudol
# Pre-statutory Consultation

| Manylion Adolygiad/Revision Details | Gan/By | Dyddiad/Date | Adolygiad/ Revision |
|---|---|---|---|

| Rhif y Prosiect/ Project No. | Graddfa/ Scale @ A3 | Dyddiad/ Date |
|---|---|---|
| P493 | 1:250 | 10/2025 |
| Rhif y Llun/ Dwg No. | | Adolygiad/ Revision |
| P493-00-75-01 | | P00 |
| Paratowyd gan/ Prepared by: | Gwiriwyd gan/ Checked by: | Cymeradwywyd gan/ Approved by: |
| DM | AG | DK |

Print Date: 20/10/2025 14:31:41

O:\Strategic Projects\Projects\P-493 Oxford Street, Maerdy\2 Drawings\75-Consultation\P493-00-75-01 Consultation Drawing.dwg